megis; Chwarae Top, Chwarae Cylchyn, Sglefrio, Hel Llus a Tynnu Grug.

Owen a minnau, pob un a'i raff newydd
I'r mynydd i dynnu dau sypyn o rug.
Powlio a rowlio'r ddau sypyn fel peli
Rowlio a phowlio ein dau ar eu hôl,
Dychwel i'r Clogwyn a'r nef am ein pennau,
O na chaem ddychwelyd i'r gwynfyd yn ôl.

Ie, bechgyn direidus, llawn hwyl ac asbri yn mwynhau pleserau syml. Yn wir yr oeddent yn cael blas ar ganu a gwrando ar gantorion yn y cyfnod cynnar yma. Cawn yn *Telyn Eryri* hanes y ddau yn dianc o Ddrws y Coed i Eisteddfod chwarel Pen-y-bryn i wrando ar Eos Morlais yn canu, a'r anfarwol Johnny Glyn yn cyfeilio iddo.


Roeddem ni ein dau pryd hwnnw,
Rhwng deg a deuddeg oed,
Wedi dianc trwy ddrycin arw
O gorlan glyd Drws Coed.

Yn dri ar ddeg oed yr oedd y ddau wedi gadael yr ysgol ac yn gweithio yn chwarel Glanrafon Rhyd-ddu. Yna bu taid a nain farw, ac aethant i lawr y dyffryn i Nantlle i fyw at ewythr William (William Owen), brawd Mair Alaw. Roedd ei dŷ yn chwarel Pen-yr-Orsedd, ac yn y chwarel hon buont yn gweithio ar hyd eu hoes, ar wahân i gyfnod yn ystod y rhyfel mawr pan fu fy nhad yn y fyddin, a Griffith yn y 'munitions' fel gof.

Daeth tŷ yn wag ar gwr y chwarel a chyfle iddynt gael aelwyd eu hunain; Annie yn cadw tŷ a'r ddau frawd yn gweithio yn y chwarel. Cyfnod hapus dros ben fu hwn i'r tri. Drws nesaf roedd teulu ddaeth i ddylanwadu'n fawr arnynt, sef teulu Hugh Hughes. Teulu cerddgar iawn oedd hwn, William y mab yn grythor dawnus, Owen ei frawd yn gyfeilydd penigamp, a Laura y ferch hefyd yn gyfeilyddes dda. Ymhen amser daeth Laura yn wraig i Griffith. Roedd seiniau bendigedig yn codi o Tŷ Nant, dau deulu fel un, yn ymgolli mewn cerddoriaeth. A dyna lle cychwynnodd y perfformio. Cyngherddau bychain lleol yn cyflwyno unawdau, deuawdau a thriawdau offerynnol a lleisiol. Cafodd Bob, mab arall Hugh a Jane Hughes, ei ladd yn y rhyfel mawr. Gwelais ei fedd ym mynwent Duhallow ar gyrion Ypres, ac ar ei garreg fedd mae cwpled gan Griffith.

Tirion frawd mewn estron fro,
Bob annwyl o bawb yno

Mae stori o'r cyfnod yma yn werth ei hadrodd. Fe brynodd fy nhad biano, heb fedru chwarae yr un nodyn. Ar ei ffordd o'r capel un bore Sul, clywodd ŵr yn dweud wrth un arall: 'Rwy'n deall fod yna ornament newydd wedi dod i Tŷ Nant!' Aeth yr ergyd at ei galon



*Owen, Bob (cyfeilydd), Griffith*


ac aeth ati o ddifrif i ddysgu. Cafodd chwarter o 'Theory' gan John Owen Jones, Tal-y-sarn (gŵr a ymfudodd i America ac a ddaeth yn gerddor enwog yno). Bu ymdrechion fy nhad mor llwyddiannus nes iddo gael ei ddewis yn gyfeilydd yn y capel, a hyn o fewn llai na dwy flynedd ar ôl prynu'r piano.

Llyncodd tomen sbwriel chwarel yr hen Dŷ Nant, ac wedi cyfnod byr yn 'Gelli Ffrydiau' daethant i lawr i ganol pentref Nantlle i dŷ newydd sbon a enwyd yn Llys Alaw. Y drws nesaf yr oedd yr Hughesiaid yn Tŷ Nant, ac yn naturiol iawn, canu, barddoni a cherddoriaeth oedd y rhaglen feunyddiol. Ond eto fe ddaeth tristwch; bu farw Annie yn dilyn damwain. Closiodd y ddau frawd at ei gilydd ac ymgolli fwyfwy mewn canu, cyfansoddi a barddoni. Erbyn hyn yr oeddent yn cael galwadau o bell, a dyma gychwyn o ddifri ar yrfa oedd i fynd â hwy i bob cwr o Gymru a'u cadw yn eilunod y cyhoedd am flynyddoedd.

Medrent gynnal cyngerdd cyfan eu hunain gydag amrywiaeth o unawdau a deuawdau Cerdd Dant, yn lleddf ac yn llon, ysgafn a safonol, gydag unawdau gan Handel, Tosti, ac eraill. Ond gan amlaf byddai dau o Nantlle, sef Llew Deulyn yn adrodd a chyflwyno, a Miss Maggie Powell, soprano, yn rhoi amrywiaeth. Mewn ambell i bentref byddai talentau lleol yn ymddangos gyda hwy, ac yn gwerthfawrogi'r fraint, fel y clywais lawer un yn datgan wedyn. Weithiau, mewn cyngerdd gweddol leol byddai Maira a Helen, fy chwiorydd, Grace a Mair, genethod Bob Owen, neu Glyn, fy mrawd, a minnau yn cael cyfle. Bu'r ddau frawd yn canu gydag enwogion y genedl megis Mary King Sarah, Madam Telini a Leila Megane. Buont yn canu mewn cyngherddau mawreddog yn yr *'Houldsworth Hall'* a'r *'Free Trade Hall'* ym Manceinion, wythnos gyfan yn Lerpwl a'r cylch, a gorffen yn y 'Philharmonic Hall'. Tro arall aent i Lundain a Birmingham, ond yn bennaf i bentrefi bach a mawr led led Cymru. Cawsant y fraint o ganu yng nghyngerdd yr Eisteddfod Genedlaethol. Clywais lawer yn sôn amdanynt yn canu bob dydd rhwng dramâu yn ystod wythnos Gŵyl Ddrama Flynyddol a drefnwyd gan Gwynfor ym Mhafiliwn mawr Caernarfon.

Nid oes amheuaeth na fu'r fagwraeth galed yn gyfrwng iddynt glosio at ei gilydd i'r fath raddau nes magu math o delepathi rhyngddynt, a hyn yn dangos yn glir ar y llwyfan. Clywais mam yn dweud fel y byddai i'r naill neu'r llall gael syniad am eiriau neu alaw addas, a chyn pen dim yn canu mewn cynghanedd berffaith. Eu cyfeilydd am y rhan fwyaf o'u gyrfa oedd Bob Owen, Drws y Coed; cyfeilydd ardderchog, oedd yn eu deall i'r dim, ac a fedrai chwarae darn anodd megis 'The Erl King' gystal ag alaw werin neu emyn don. Byddai galw mawr am ei wasanaeth i eisteddfodau'r cylch ac ni chafodd drafferth erioed gydag unrhyw gyfeiliant, er bod ambell gopi yn fregus ddifrifol. Gwaith bob dydd bysedd medrus, meinion Bob Owen oedd gwthio wagen sbwriel llechi dros y domen yn chwarel Pen yr Orsedd. Beth fuasai ei hanes heddiw tybed?

Fel y soniais yn barod, yr oedd Griffith yn fardd gwlad dawnus ac Owen hefyd yn barddoni, ond fel cerddor yr adnabuwyd ef. Byddai yn cyfansoddi alawon a thonau, llawer ohonynt yn boblogaidd iawn yn y dyffryn. Cyfansoddodd dôn i bob un ohonom ni y plant, un i'w fam 'Mair Alaw', un i 'Hannah' fy mam, ac un arall i 'Tŷ Nant'. Mae ei dôn 'Nantlle' yn *Caneuon Ffydd*. Er mai dim ond chwarter o addysg gerddorol gafodd, medrai gynganeddu yn fedrus a byddai yn trefnu ambell ddarn i'r band lleol. Medd un cerddor amdano: 'Mae ei holl waith yn




*Rhaglenni o rai o'u cyngherddau.*